CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
18 Tachwedd 2014, Neuadd Talwrn
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap Rhobert, C McGregor, D Morgan, D Pritchard, W Vaughan, A Williams, W Williams, A Wyn, PCSO Marcia Hughes, PCSO Neil ?	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, D Roberts, G D Williams, O Davies, R G Parry (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb yn cynnwys yr Heddlu.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21 Hydref 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng A Williams yn cynnig a Cyng W Williams yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.2	**Gofeb Talwrn** - mewn llaw
4.3	**Llwybrau Cyhoeddus** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris £273.73 gan Cymunedau yn Gyntaf ac yn disgwyl iddynt gwneud y gwaith.
4.4	**Rali** - darllenwyd llythyr gan Rali Mon yn datgan bod pob catref yn derbyn gwybodaeth am rali. Gofynwyd i'r Clerc ymateb gan ddatgan nad yw hyn wedi digwydd.
4.5	**Yr Heddlu** - Cynigodd yr Heddlu fynychu'r cyfarfodydd pan fo hynny'n bosibl ac i weithio gyda'r Cyngor Cymuned yn ol yr angen. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at Comisiynydd yr Heddlui ddweud mae'r aelodau yn poeni nad yw staff yn ddwyieithog. Mae'r aelodau yn teimlo yn yr ardaloedd Cymraeg (ardal ein Cyngor) ddylai staff fod yn ddwyieithog. Maent yn deall bod Heddlu Gogledd Cymru yn cynnig gwersi Cymraeg ac yn awyddus iddynt drefnu i gael mwy o staff i fanteisio ar y cynnig.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	**Gwahardd Traffig Trwodd dros dro** - gwybodaeth yn unig
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Cymunedau yn Gyntaf** - gweler 4.3
	Llofnod…….Cadeirydd 20.01.15

7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae arwydd Talwrn rhwng Tyn Llidiart/Tyn Beudy wedi diflannu. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.2	Palmant Talwrn - Gofynnodd Cyng W Williams beth sydd yn digwydd i'r cais am palmant rhwng sgwar Talwrn - Tai Cyngor a soniodd am cynllun "safe routes to communities" - bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
8.3	Cynigodd Cyng D ap Rhobert ymddiheuriadau gan nad oedd wedi gallu bod yn bresennol mewn sawl cyfarfod
8.4	Trafodwyd cwyn am baw ceffyl ar hyd y lon rhwng Hafan Deg - Bodlondeb, hefyd bod angen lefelu'r lon. Gofynwyd i'r Clerc dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.5	Uno awdurdodau Lleol Cymru - Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i ddweud "Mae Cyngor Cymuned Llanddyfnan yn teimlo oherwydd gostyngiadau ariannol, y dylai Cyngor Sir Ynys Mon ystyried o ddifrif uno yn wirfoddol gyda chyngor neu gynghorau eraill cyn cael corfodi i wneud. Hefyd, mae'r aelodau yn teimlo y byddai cydweithio gyda chynghorau eraill fyddai'r ffordd orau ymlaen"
	Llofnod…….Cadeirydd 20.01.15